WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Mepham
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd yr Angel
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF31 4WB

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 634A2012 |
| **Dyddiad** | 14 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **5** |

Annwyl Darren

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o waith yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 17 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Rwyf wedi llunio fy nghasgliadau drwy:

- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a gynhyrchwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyngor erbyn 31 Hydref, lle'r oedd yn adrodd ar berfformiad y Cyngor yn 2011-12;
- cynnal cyfweliadau â rheolwyr ac adolygu dogfennau ategol mewn sampl o'r meysydd gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad;
- profi dibynadwyedd sampl o ddangosyddion perfformiad.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Drwy gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol erbyn y terfyn amser 31 Hydref, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol 2009, o dan Adran 15 (7). Cymeradwywyd yr Adroddiad gan y Cabinet ar 17 Hydref 2012 ac mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys naw o Amcanion Gwella a chamau gweithredu ategol, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2011-12. Mae'r Cyngor yn darparu crynodeb clir o'r canlyniadau ac yn cynnwys tystiolaeth ddigonol i ddangos a yw'r Cyngor wedi cyflawni gwelliannau ai peidio neu a yw wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus.

Roedd yr holl Ddangosyddion Perfformiad Statudol wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad, ac roeddent wedi'u hasesu'n briodol gan y Cyngor, yn ogystal â'r dangosyddion perfformiad lleol.

### Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i gyhoeddi argaeledd ei Adroddiad Blynyddol, sy'n nodi a yw'r gwelliannau wedi'u cyflawni ai peidio; ond nid yw'r Adroddiad bob amser yn cynnwys manylion effaith neu ddeilliannau ei gamau gweithredu.

#### Mae'r Cyngor yn cryfhau ei ddull o adolygu ei berfformiad ac mae wedi cynhyrchu barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12.

Mae'r Cyngor yn dangos mwy o hunanymwybyddiaeth, o gymharu â'r llynedd, drwy roi adroddiad mwy cytbwys ar ei berfformiad, gan roi rhesymau dros ei fethiannau, yn ogystal â hyrwyddo ei lwyddiannau.

Yn yr Adroddiad Blynyddol, disgrifir perfformiad y Cyngor yn erbyn pob un o'r naw Amcan Gwella. Mae gan bob Amcan Gwella adran ar wahân sy'n cynnwys disgrifiad o'r heriau parhaus a'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Er hynny, mewn rhai enghreifftiau, gallai'r Cyngor ddatgan yn gliriach a yw pob agwedd ar yr Amcanion Gwella wedi'i chyflawni ai peidio; er enghraifft, drwy ddarparu datganiad pendant sy'n dwyn ynghyd yr holl ganlyniadau ar gyfer pob amcan.

Mae adolygu perfformiad yn swyddogaeth arferol sy'n cael ei chynnal yn rheolaidd yn y sefydliad drwyddo draw, ac mae'n cynnwys rheolwyr ac aelodau'r Cyngor yn y gwaith o asesu a rheoli perfformiad. Ym mis Gorffennaf 2012, cyflwynwyd trefniadau Asesu Perfformiad Corfforaethol newydd y Cyngor, a oedd yn seiliedig ar ei Adolygiadau Busnes Chwarterol blaenorol. Maent yn rhoi cyfle bob tri mis i uwch reolwyr ac aelodau fonitro perfformiad y gwasanaethau yn erbyn amcanion gwella. Mae'r canlyniadau perfformio yn cael eu dadansoddi, a defnyddir y wybodaeth hon i nodi camau gweithredu a fydd yn eu

galluogi i fynd i'r afael â gwendidau a heriau yn y dyfodol. Mae'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn ffocws i'r Cyngor herio ei hun, dysgu a phwyso a mesur ei berfformiad a rhoi adroddiad i'r cyhoedd ar ei gynnydd.

Bu i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adolygu adroddiadau penaethiaid gwasanaeth y gwasanaethau oedolion a phlant, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2012. Canfu'r Arolygiaeth fod y Cyngor wedi darparu gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol a oedd yn dangos cynnydd ac a oedd o gymorth o ran gwerthuso perfformiad.

**Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i lunio ei gasgliadau ac mae'n gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch.**

Darparodd y Cyngor dystiolaeth ddigonol i wneud asesiad dilys o'i berfformiad drwy esbonio ei fwriadau ac, yn y rhan fwyaf o achosion, drwy ddarparu disgrifiad digonol o gynnydd ynghyd â darparu dangosyddion perfformiad ategol mewn llawer o achosion. Er enghraifft, o ran cynyddu'r dewis o opsiynau tai gyda phwyslais ar osgoi digartrefedd, mae'r disgrifiad yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys defnyddio llety gwely a brecwast, gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol, a chynyddu nifer y tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau ehangu sylfaen ei dystiolaeth drwy gynnwys adborth gan ei Banel Dinasyddion.

Mae gan y Cyngor systemau dibynadwy ar gyfer sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir yn ei adroddiadau yn gywir. Mae'r Cyngor yn darparu data ar ei berfformiad yn erbyn targedau'r flwyddyn gyfredol, yn erbyn targedau'r ddwy flynedd flaenorol a, phan fydd hynny'n bosibl, mae'n cymharu ei berfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Er enghraifft, mae'n cymharu ei berfformiad i fesur nifer y dyddiau calendr cyfartalog a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sef 251 o ddiwrnodau yn erbyn cyfartaledd Cymru gyfan, sef 326 o ddiwrnodau a chyfartaledd De Ddwyrain Cymru, sef 291 o ddiwrnodau; gan ddod i'r casgliad bod ei ganlyniadau yn fwy ffafriol o gymharu â'r rhain.

Er bod proses hunanasesu'r Cyngor yn ymddangos yn berthnasol i anghenion defnyddwyr, nid yw nifer o'r disgrifiadau a ddefnyddir ganddo yn ei Adroddiad Blynyddol 2011-12 i werthuso ei lwyddiant yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau. Er enghraifft, y disgrifiad i 'weithio gyda phartneriaid iechyd a'r trydydd sector, i gyflwyno rhaglen wedi'i thargedu o hyrwyddiadau iechyd a lles': mae'r datganiad hwn yn esbonio'r camau sy'n cael eu cymryd ond nid yw'n datgan yn glir a yw defnyddwyr gwasanaethau ar eu hennill ai peidio. Yn yr un modd, mae swm sylweddol o gyllid wedi'i ddosbarthu drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol (£1.2 miliwn) a Grantiau Mentrau Cymunedol (£2 filiwn); fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhoi manylion am y ffordd y mae'r buddsoddiadau ariannol hyn wedi sicrhau buddiannau gwirioneddol i bobl a'u cymunedau.

Mae’r Cyngor wedi cydnabod bod hyn yn faes i’w wella, ac mae’n yn gweithio i ddatblygu mesurau sy’n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn asesu perfformiad yn erbyn blaenoriaethau 2012-13. Mae’r Cyngor hefyd wedi cymryd camau i wella cynlluniau busnes gwasanaethau unigol yn dilyn adroddiad a ysgrifennwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ddiogelwch Cymunedol a Llywodraethu ar 10 Medi 2012, a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella ansawdd y wybodaeth a oedd wedi’i chynnwys yn y cynlluniau.

Byddai’r Cyngor hefyd yn elwa ar gynnwys dadansoddiad ac adolygiadau manylach o’i gyflawniadau ac unrhyw dueddiadau ar i lawr, er enghraifft, rhoi rhesymau pam y cyflawnwyd y canlyniadau, ac a yw’r camau gweithredu wedi cael yr effaith a ddymunwyd. Mae’r Adroddiad Blynyddol, Adran (Atodiad B – Atodiad A) yn cynnwys data am ddangosyddion perfformiad penodol, gyda sylwadau ar ansawdd y perfformiad, megis pryd y cyflawnwyd y targedau a chymhariaeth o’r perfformiad yn erbyn canlyniadau Cymru a chanlyniadau rhanbarthol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, dynodwyd tueddiadau positif er nad oedd y targedau wedi’u cyflawni. Er enghraifft, nodwyd mai’r targed ar gyfer y ganran o leoliadau cyntaf plant sy’n derbyn gofal a chanddynt gynllun gofal oedd 93 y cant, ond 88.7 y cant oedd y perfformiad gwirioneddol a nodwyd. Mae’r dueddiad gadarnhaol o ran gwella wedi’i datgan yn gywir ond ni roddir rheswm dros fethu â chyflawni’r targed – yn y cyd-destun o bennu targed o 95 y cant ar gyfer 2012-13. Byddai cynnwys mwy rhagor o esboniadau am ansawdd y perfformiad yn fwy defnyddiol er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o’r sefyllfa. Nid yw’r Adroddiad Blynyddol yn datgan yn glir eto sut y defnyddir y wybodaeth am berfformiad i ddylanwadu ar Amcanion Gwella a’u datblygu yn y flwyddyn i ddod.

Mae’r Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnwys adran ar y gwaith cydweithredol a wnaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Byddai’r disgrifiadau yn elwa ar gynnwys gwybodaeth fanylach am sut a pham y cafodd y gwaith cydweithredol ei wneud, y deilliannau arfaethedig a’r hyn a gyflawnwyd hyd yma.

**Cymerodd y Cyngor gamau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i argaeledd ei asesiad.**

Mae’r Cyngor wedi sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol ar gael i’r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo ei argaeledd drwy’r wasg; cyhoeddi crynodeb mewn rhifyn arbennig o’i gylchlythyr cymunedol a ddosbarthwyd ym mis Tachwedd 2012; a thrwy sicrhau bod copïau electronig ohono ar gael mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd eraill y Cyngor. Mae’r Cyngor hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasu megis Twitter a Digital Signage i hyrwyddo’r Adroddiad Blynyddol ac i alluogi’r cyhoedd i roi adborth arno.

Am y tro cyntaf, mae proses o alluogi dinasyddion i roi adborth ar effeithiolrwydd yr Adroddiad Blynyddol fel dull o gyfleu gwybodaeth ar weithgareddau’r Cyngor yn cael ei hannog drwy ddefnyddio arolwg atodol syml.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Yn gywir

HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Steve Barry – Rheolwr

Helen Keatley – Arweinydd Archwilio Perfformiad